



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwranddo ar fy
syniadau a'm barn

Dweud fy
stori i

Helpu i wneud yn
siŵr bod fy llais i'n
cael ei glywed

Bod yna
fel clust
i wrando
arnaf i

Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol

**Fframwaith safonau a
chanlyniadau cenedlaethol**

Ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc



Weithiau mae angen help neu gymorth ar blant a phobl ifanc i gael rhywun i wrando ar eu syniadau a'u barn. Mae hyn yn cael ei alw'n eiriolaeth.



Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw, pan fydd eu hangen arnyn nhw.



Rhywun a fydd yn gallu dy helpu di i wneud yn siŵr bod dy lais di'n cael ei glywed pan na fyddi di'n teimlo bod rhywun yn gwrando ar dy farn di yw **eiriolwr**.



Gwasanaeth sy'n dy annog a dy gefnogi di pan fydd angen yw **gwasanaeth eirioli**. Gallan nhw hefyd dy roi di mewn cysylltiad ag unigolyn a allai fod yn eiriolwr iti.

Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc.

Mae gwasanaethau eirioli yn gallu dy helpu di drwy

- ✓ Siarad drosot ti.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod dy hawliau yn cael eu hamddiffyn a dy fod di'n cael dy barchu.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod dy lais yn cael ei glywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud a fydd yn effeithio ar dy fywyd.

CCUHP

Cytundeb rhyngwladol sy'n cynnwys 42 o erthyglau yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae hwn yn ganolog i bob peth y byddwn ni'n ei wneud.

Cynnig gweithredol

Mae angen inni wneud mwy na chynnig gwasanaethau eirioli.

Ambell waith mae'n rhaid inni gyfarfod â phlant a phobl ifanc i egluro beth yw'r gwasanaethau hyn. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod beth sydd ar gael a sut allwn ni eu helpu. Mae hyn yn cael ei alw'n gynnig gweithredol.

Rhaid gwneud y cynnig gweithredol i:

- ✓ Blant mewn gofal.
- ✓ Pobl ifanc sy'n gadael gofal.
- ✓ Plant a phobl ifanc sydd angen mwy o gefnogaeth.

Mae gan Gymru lawer o wasanaethau eirioli da ond rydyn ni am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un lefel uchel o wasanaeth eirioli ble bynnag y maen nhw'n byw.

Mae gennym ni fframwaith newydd i sicrhau bod hyn yn digwydd (camau a safonau). Mae'n disgrifio beth ddylai gwasanaethau eirioli ac awdurdodau lleol ei wneud ac mae'n dangos inni ba ganlyniadau rydyn ni am eu gweld ar gyfer bywydau plant a phobl ifanc.

Mae'r llyfryn hwn yn dweud mwy wrthyt ti am y fframwaith a'r 5 set o Safonau a Chanlyniadau. Rydyn ni eisiau gwybod beth rwyd ti'n ei feddl.

Bydd hi'n hawdd imi gael help yn gyflym pan fydda i ei angen.



Pwy sy'n gwneud beth?

Mae awdurdodau lleol yn aml yn gofyn i sefydliadau ddarparu gwasanaethau eirioli yn eu hardal.

Darparwyr Gwasanaethau Eirioli

Rhaid i bob sefydliad sy'n rhedeg gwasanaeth eirioli ar gyfer awdurdod lleol

- ✓ Ddiweddarau eu polisiau yn rheolaidd.
- ✓ Gwybod sut i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth yn ddiogel.
- ✓ Adrodd ar sut maen nhw'n dilyn y fframwaith newydd.
- ✓ Hyfforddi eu heiriolwyr.

Comisiynwyr Gwasanaethau Eirioli

sy'n dewis, monitro a chadw golwg ar y darparwyr gwasanaethau eirioli i sicrhau eu bod nhw'n rhedeg eu gwasanaethau'n gywir.








Gwasanaeth eirioli da sy'n hawdd dod o hyd iddo a'i ddefnyddio

Safonau – dylai gwasanaethau eirioli

- ✓ Roi cymorth a chyngor yn gyflym.
- ✓ Fod wedi eu hysbysebu'n dda.
- ✓ Cael eu darparu mewn lleoliadau sy'n caniatáu i bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys unigolion anabl, eu defnyddio, ar amser sy'n gyfleus iddynt.
- ✓ Darparu gwasanaeth peiriant ateb yn Gymraeg a Saesneg sy'n egluro pryd y bydd rhywun yn cysylltu nôl â'r unigolyn sydd wedi ffonio a gwybodaeth am sut i gael help ar unwaith os bydd angen.
- ✓ Paratoi cynllun gweithredu sy'n cynnwys amseroedd apwyntiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf.
- ✓ Sicrhau bod eu staff yn cael digon o hyfforddiant a'u bod yn deall eu gwaith.
- ✓ Casglu gwybodaeth a thystiolaeth o'r ffordd maen nhw'n gweithio a gwrando ar farn plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu gwella.



Canlyniadau – sut brofiad fydd hwn i blant a phobl ifanc.

-  Rydyn ni'n gallu dweud ein barn am wasanaethau a'u gweld yn gwella.
-  Mae gennym ni wasanaethau eirioli sy'n hawdd dod o hyd iddynt a'u defnyddio.
-  Rydyn ni'n gallu gweld pa wasanaethau eirioli sydd ar gael.
-  Rydyn ni i gyd yn gallu defnyddio gwasanaethau eirioli.
-  Rydyn ni'n gallu cael cymorth ar unrhyw amser.
-  Rydyn ni'n deall sut bydd gwasanaethau eirioli yn ein cefnogi.
-  Rydyn ni'n gallu siarad â staff sydd wedi cael eu hyfforddi i'n helpu.

Galla i gael gwybod drwy'r rhynggrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol am yr help sydd ar gael.






2 Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae eu preifatrwydd yn cael ei warchod

Safonau – dylai gwasanaethau eirioli

- ✓ Warchod preifatrwydd a gweithio i gadw popeth yn gyfrinachol heblaw pan fyddan nhw'n teimlo bod plant a phobl ifanc mewn perygl.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael ei amddiffyn a'i gadw'n ddiogel.
- ✓ Peidio â rhannu gwybodaeth heb egluro pam a gweithio i sicrhau bod y berthynas rhwng yr eiriolwr a'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau'n dda.
- ✓ Cynnig ffyrdd clir, hawdd eu defnyddio o gwyno pan fydd problem neu fater yn codi.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod help a chyngor ar gael pan fydd plentyn neu berson ifanc yn teimlo nad yw gwasanaeth eirioli yn delio â'i gŵyn.



Canlyniadau – sut brofiad fydd hwn i blant a phobl ifanc.

-  Rydyn ni'n deall polisi cyfrinachedd y gwasanaethau eirioli felly rydyn ni'n gallu penderfynu a ydyn ni am eu defnyddio.
-  Rydyn ni'n cael ein hamddiffyn ac rydyn ni'n ddiogel.
-  Rydyn ni'n gallu gwneud penderfyniadau ac yn gallu cael cefnogaeth gan eiriolwr rydyn ni'n ymddiried ynddo.
-  Rydyn ni'n gallu cwyno os oes problem.
-  Os byddwn ni'n teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando, rydyn ni'n gallu cael gwybodaeth a chyngor ar beth i'w wneud nesaf.

Mae'n bwysig bod yr hyn y bydda i'n ei ddweud wrth yr eiriolwr yn cael ei gadw'n gyfrinachol.






3 Mae plant a phobl ifanc yn cael eu trin â pharch ac mae'r gwahaniaethau rhyngddynt yn cael eu gwerthfawrogi

Safonau – dylai gwasanaethau eirioli

- ✓ Wneud yn siŵr nad oes unrhyw un yn cael ei drin yn wael ac na fydd unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, hil, diwylliant, crefydd, iaith, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol na chenedligrwydd.
- ✓ Rhoi gwybod i blant a phobl ifanc am eu hawliau gan gynnwys yr hawl i gael eu trin yn deg.
- ✓ Parchu gofynion diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol plant a phobl ifanc.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rheini sy'n dod o grwpiau anodd eu cyrraedd, yn gwybod bod modd iddo/iddi gael cymorth.
- ✓ Gwneud yn siŵr eu bod yn cefnogi plant a phobl ifanc anabl sy'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu.



Canlyniadau - sut brofiad fydd hwn i blant a phobl ifanc.

-  Rydyn ni'n cael gwasanaeth eirioli heb wynebu unrhyw ymddygiad sy'n gwahaniaethu.
-  Rydyn ni'n gwybod ein hawliau ac yn cael cymorth i herio ymddygiad sy'n gwahaniaethu.
-  Byddwn ni'n cael ein parchu a byddwn yn gallu cael help yn yr iaith rydyn ni'n ei dewis.
-  Mae pob un yn gallu cael cymorth gan wasanaethau eirioli.
-  Mae plant anabl yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.










Mae'n bwysig fy mod i'n gallu ymddiried yn y bobl y bydda i'n siarad â nhw.

4 Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi ac mae eu llais yn cael ei glywed

Safonau – dylai gwasanaethau eirioli

- ✓ Hyrwyddo hawliau plant.
- ✓ Egluro eu bod yn cael eu rheoli'n annibynnol i'r comisiynwyr fel bod modd cadw golwg arnynt.
- ✓ Rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i'w helpu i ystyried eu hopsiynau a gwneud penderfyniadau.
- ✓ Cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt gwyno.
- ✓ Cadw rhestr ddiweddar o wasanaethau cyngor cyfreithiol.
- ✓ Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gwybod bod hawl ganddyn nhw newid eu heiriolwr.
- ✓ Cefnogi plant a phobl ifanc i siarad drostyn nhw eu hunain, gydag eiriolwr neu drefnu bod eiriolwr yn siarad drostyn nhw.
- ✓ Helpu plant a phobl ifanc i baratoi beth maen nhw am ei ddweud yn uniongyrchol wrth y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am eu bywydau.
- ✓ Hyrwyddo hawliau plant wrth bob gweithiwr proffesiynol ac oedolyn.
- ✓ Gwrando ar adborth a gwella'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithio.

Canlyniadau - sut brofiad fydd hwn i blant a phobl ifanc.

-  Bydd ein barn yn cael ei glywed a'n hawliau'n cael eu parchu.
-  Rydyn ni'n gwybod pa wasanaethau eirioli sy'n annibynnol ac a fydd yn cael eu monitro.
-  Mae gennym ni'r wybodaeth sydd ei hangen arnon ni i wneud penderfyniadau.
-  Rydyn ni'n gwybod bod gennym hawl i gwyno pan fydd angen.
-  Rydyn ni'n cael cymorth i ofyn am gyngor cyfreithiol pan fydd ei angen.
-  Rydyn ni'n gallu newid ein heiriolwr os ydyn ni eisiau.
-  Rydyn ni'n gwybod bydd gwasanaethau eirioli yn ein helpu i gael ein clywed pa bynnag ffordd y byddwn ni'n ei dewis.
-  Rydyn ni'n teimlo bod gennym ni gefnogaeth i godi llais, ac rydyn ni'n barod ac yn hyderus i wneud hynny.
-  Mae ein hawliau yn cael eu hyrwyddo.

Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn cael ein cefnogi i ddweud beth sy'n ein poeni a bod gennym ni glust i wrando!




5 Mae plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu i'r broses o gynllunio gwasanaethau eirioli a'u gwerthuso

Safonau – dylai gwasanaethau eirioli

- ✓ Ei gwneud hi'n haws i blant a phobl ifanc gymryd rhan a chael mynegi barn am y ffordd y mae gwasanaethau eirioli yn gweithio.
- ✓ Cefnogi plant a phobl ifanc i fynegi barn am y ffordd mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u monitro, a sut maen nhw'n hyfforddi staff.
- ✓ Gofyn i gymaint o wahanol blant a phobl ifanc â phosibl am y ffordd y dylai'r gwasanaethau weithio.



Canlyniadau - sut brofiad fydd hwn i blant a phobl ifanc.

-  Rydyn ni'n gallu dweud ein barn am wasanaethau eirioli.
-  Rydyn ni'n cael mwy o reolaeth dros ein sefyllfa ein hunain ac rydyn ni'n rhan o'r broses o wella gwasanaethau eirioli.
-  Rydyn ni i gyd yn gallu cymryd rhan a dweud ein barn.

Gallwn ni ddefnyddio gwasanaethau eirioli - fel yr oedolion, rydyn ni'n gweld pan fydd rhywbeth o'i le a gall ein syniadau ni helpu i wella'r sefyllfa!

? Cwestiynau

Diolch ichi am ddarllen

Atebwch y cwestiynau ac anfon eich atebion i:

takingsocialcareforward@wales.gsi.gov.uk

neu:

Y Gangen Diogelwch ac Eirioli, y Gyfarwyddiaeth
Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

erbyn 23 Mehefin 2017



1 A fydd y fframwaith hwn yn helpu darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau eirioli i wybod beth mae pobl ifanc eisiau ei gael gan wasanaethau eirioli?

Bydd

Na fydd

Ddim yn gwybod

2 A fydd y fframwaith hwn yn helpu i gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli?

Bydd

Na fydd

Ddim yn gwybod

3 A fydd y fframwaith hwn yn helpu comisiynwyr gwasanaethau eirioli i fonitro a chadw golwg ar y gwasanaethau?

Bydd Na fydd Ddim yn gwybod

4 A wyt ti'n meddwl y bydd y cynnig gweithredol o gymorth eirioli yn helpu plant a phobl ifanc?

Bydd Na fydd Ddim yn gwybod

5 A wyt ti'n meddwl y bydd y fframwaith hwn yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i gael gwasanaeth eirioli beth bynnag yw ei gefndir?

Bydd Na fydd Ddim yn gwybod

6 Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru ddeall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon mewn perthynas â'r canllawiau hyn yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: Oed; Anabledd; Ailbennu rhywedd; Priodas a phartneriaeth sifil; Beichiogrwydd a mamolaeth; Hil; crefydd a chred; Rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. A wyt ti'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

7 Hoffem glywed dy farn di am yr effaith y byddai'r canllawiau yn ei chael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

7 ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn dy farn di? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

8 A wyt ti'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylen ni ei drafod?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod